


## Adroddiad gan:

### Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant

# Adroddiad Blynyddol

## 2017- 2018

CARDIFF
CAERDYDD

Cyngor Caerdydd

## Aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant



Y Cynghorydd Nigel Howells
(Cadeirydd)



Y Cynghorydd Saeed Ebrahim



y Cynghorydd Iona Gordon



Y Cynghorydd Gavin Hill-John



Y Cynghorydd Thomas Parkhill



Y Cynghorydd Adrian Robson



Y Cynghorydd Abdul Sattar



Y Cynghorydd Ed Stubbs

# CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR CRAFFU ECONOMAIDD A DIWYLLIANT

- Craffu ar, mesur a hyrwyddo gwelliant yn weithredol ym mherfformiad y Cyngor o ran cynnig gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes adfywio economaidd.
  - Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
  - Mewnfuddsoddiad a marchnata Caerdydd
  - Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru
  - Strategaeth Economaidd a Chyflogaeth
  - Arian Ewropeaidd a Buddsoddi
  - Cymorth i Fentrau Bach a Chanolig
  - Awdurdod Harbwr Caerdydd
  - Dysgu Gydol Oes
  - Canolfannau Hamdden
  - Datblygu Chwaraeon
  - Parciau a Mannau Gwyrdd
  - Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Diwylliant
  - Adeiladau Dinesig
  - Digwyddiadau a Thwristiaeth
  - Projectau Strategol
  - Canolfannau Arloesi a Thechnoleg
  - Hyfforddiant a Menter Lleol

- Asesu effaith partneriaethau gydag adnoddau a gwasanaethau a gynigir gan sefydliadau allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd, cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol ar effeithiolrwydd gwasanaethau’r Cyngor.

- Adrodd ar ei ganfyddiadau mewn cyfarfod priodol o’r Cabinet neu'r Cyngor a gwneud argymhellion ar fesurau i wella perfformiad y Cyngor neu ddarparu gwasanaethau yn y maes.

# RHAGAIR Y CADEIRYDD

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Pwyllgor. Mae cynghorwyr newydd wedi ymuno â'r pwyllgor craffu am y tro cyntaf, mae cynghorwyr profiadol wedi ymuno o bwyllgorau craffu eraill, ac mae gweinyddiaeth newydd wedi cymryd yr awenau. Am y rhesymau hyn, defnyddiom y flwyddyn hon i roi i Aelodau'r Pwyllgor grap da ar brif feysydd ein Cylch Gorchwyl ac offer allweddol craffu llwyddiannus. Mae'n bleser gennyf nodi y bydd pawb ond un o blith Aelodau'r Pwyllgor yn aros ym mlwyddyn 2018/19 ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda nhw i ganolbwyntio'n craffu ar y meysydd y gallwn ni ychwanegu gwerth gorau ynddyn nhw.

Mae rhan fawr o flaenoriaethau'r weinyddiaeth newydd yn dod dan gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn. Ar ben hyn, mae newidiadau sylweddol i raglenni Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar adfywio. Rydym wedi sicrhau ein bod yn craffu ar y rhain ond rydym hefyd wedi neilltuo amser i ganolbwyntio ar wasanaethau sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â thrigolion a chymunedau, ac sydd wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrgelloedd, chwaraeon a gwasanaethau hamdden. Mae'r Orsaf Fysus arfaethedig yn broject sy'n trawstorri gwaith adfywio a gwaith darparu gwasanaethau. Rydym wedi cadw llygad agos ar gynnydd hyn a byddwn yn parhau i wneud hynny yn 2018-19 gan ganolbwyntio'n benodol ar y cysylltiadau rhwng yr Orsaf Drenau Ganolog a gwaith datblygu arfaethedig.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cynorthwyo gyda'n gwaith craffu eleni gan gynnwys Aelodau o'r Cabinet ac uwch swyddogion, a sefydliadau partner. Yn bwysicaf oll, mae adborth defnyddwyr gwasanaeth a thrigolion wedi taflu goleuni ar y problemau y maen nhw'n eu hwynebu ac mae'n ein helpu i ganolbwyntio'n craffu ar y meysydd sy'n bwysig.

Mae ein hymchwiliad i'r ffordd y mae ein Parciau a'n Mannau Gwyrdd yn parhau i ffynnu mewn cyfnod o gyni ariannol wedi bod yn rhan fawr o'n gwaith eleni. Rwy'n wirioneddol ddiolchgar i bawb a gyfrannodd syniadau, profiadau ac arbenigedd ac i'm cydweithwyr yn y tasglu, y Cynghorydd Gavin Hill-John a'r Cynghorydd Iona Gordon am eu hamser a'u cymorth i ymgymryd â'r adroddiad pwysig hwn. Dylai fod o gymorth i'r weinyddiaeth i adnabod ffordd glir ymlaen i greu incwm a lleihau costau.

Bydd y flwyddyn o'n blaenau'n brysur gyda gwaith craffu ar y Fargen Ddinesig, gweledigaeth Datblygu Economaidd newydd a mwy o newidiadau i wasanaethau. Rwy'n edrych ymlaen at sicrhau bod gwaith craffu'n canolbwyntio ar ddinasyddion, yn dwyn y Cabinet i gyfrif am ei benderfynu, ac yn gweithio'n adeiladol ar sicrhau polisïau a gwasanaethau gwell i Gaerdydd.



**Y Cynghorydd Nigel Howells**
**Cadeirydd, Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant**

# 2017-18 CYFLWYNIAD A THROSOLWG

Mae'r Pwyllgor Craffu Economi a Diwylliant yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o asesu perfformiad gwasanaethau a llywio gwaith datblygu polisi mewn ystod o wasanaethau'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn clywed gan ystod o dystion i lywio'r gwaith hwn gan gynnwys Aelodau Cabinet, swyddogion Cyngor, sefydliadau partner, dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau. Yn ystod 2017-18, craffodd Aelodau'r Pwyllgor ar eitemau mewn sawl un o feysydd Portffolio'r Cabinet fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd Huw Thomas – yr Arweinydd
- Y Cynghorydd Peter Bradbury – Diwylliant a Hamdden
- Y Cynghorydd Russell Goodway – Buddsoddi a Datblygu
- Y Cynghorydd Sarah Merry – Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau
- Y Cynghorydd Lynda Thorne – Tai a Chymunedau.

Datblygu Economaidd, Gweithrediadau'r Ddinas[1], a Phobl a Chymunedau yw'r Cyfarwyddiaethau y mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ymdrin â nhw'n bennaf. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno prif weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2017-18 a, lle y bo modd, nodir effaith gwaith y Pwyllgor ar y meysydd yn ei gylch gwaith. Rhwng Gorffennaf 2017[2] a Mai 2018, craffodd y Pwyllgor ar ystod eang o bynciau sydd wedi'u rhestru isod gyda phwyslais arbennig ar broject Gorsaf Fysus Caerdydd.

**Ymholiadau**

Lle y mae'r Pwyllgor wedi ymchwilio i bwnc dros gyfnod o amser cyn cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Cabinet.

- 'Ariannu Parciau'.

**Datblygu a/neu Adolygu Polisi**

Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd y Pwyllgor wedi cyfrannu at brosesau datblygu polisi'r Cyngor, er enghraifft trwy ystyried dogfennau polisi drafft a/neu os yw'r Pwyllgor wedi ystyried gweithredu'r polisi. Bydd yn ystyried p'un a yw hyn wedi digwydd yn brydlon a beth fydd effaith y polisi, a bydd y Pwyllgor yn rhoi cyfle i'r Cabinet gael barn Aelodau'r Pwyllgor Craffu ar ba un ai oes angen gwneud newidiadau ai peidio.

---

[1] Mae hyn yn cyfeirio at adran 'Parciau, Chwaraeon, Hamdden ac Awdurdod Harbwr Caerdydd' a oedd yn rhan o Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas ar ddechrau 2017-18; maen nhw bellach wedi symud i Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd.

[2] Dechreuodd cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu ym mis Gorffennaf yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2018.

- Gwasanaethau Cyflogaeth yng Nghaerdydd
- Newidiadau a gynigir o ran ariannu Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Arena Dan Do Amlbwrpas
- Gorsaf Fysus Caerdydd
- Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog
- Papur Gwyrdd Datblygu Economaidd
- Rhaglen Flaengaredd Adfywio Targedig
- Menter Datblygu Chwaraeon ar y Cyd
- Partneriaeth Rheoli Hamdden gyda GLL
- Cynllun Chwaraeon Lleol 2018-19

**Cyn Penderfynu**

Pan fo'r Pwyllgor wedi gwerthuso a gwneud sylwadau ar gynigion polisi cyn iddyn nhw fynd gerbron y Cabinet a rhoi cyfle i'r Cabinet wybod barn yr Aelodau Craffu cyn gwneud eu penderfyniad.

- Ariannu y Gyfnewidfa Drafnidiaeth Fysus newydd
- Gwasanaethau Cyflogaeth yng Nghaerdydd
- Eitem Cyfrinachol Brys (Tachwedd)
- Cynllun Busnes yr Arena Dan Do Aml Bwrpas
- Cynllun Busnes Cytundeb Gweithio ar y Cyd ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd
- Y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol
- Yr Orsaf Fysiau – Dull Darparu Newydd

**Monitro**

Pan fo'r Pwyllgor wedi monitro perfformiad a chynnydd y Cyngor o ran rhoi camau gweithredu y cytunwyd arnynt eisoes ar waith.

- Cynllun Corfforaethol 2018-21 a Chyllideb 2018/19
- Adroddiadau Perfformiad Chwarterol – Datblygu Economaidd; Gweithrediadau'r Ddinas; Pobl a Chymunedau: Tai a Chymunedau.
- Y Pumed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru
- Cynigion Cyffredinol Prif Lyfrgellwyr
- Her Ddarllen Yr Haf 2017
- Cyfraddau Llwyddo Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

**Galw i Mewn**

Pan fydd Aelod Anweithredol yn gweithredu Gweithdrefn Galw i Mewn yn unol â chyfansoddiad y Cyngor er mwyn adolygu penderfyniad Gweithredol sydd heb ei roi ar waith eto.

- Ariannu'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth Fysus newydd

Dros y cyfnod Gorffennaf 2017 – Mai 2018 cynhaliodd y Pwyllgor 14 cyfarfod pwyllgor[3] ac ysgrifennodd 23 llythyr i'r Cabinet, at swyddogion ac at bartneriaid allanol i rannu eu sylwadau, argymhellion a phryderon yn dilyn craffu ar faterion mewn cyfarfodydd pwyllgor. Yn achlysurol, gwnaeth Aelodau hefyd ofyn am ragor o wybodaeth i helpu gyda gwaith craffu yn y dyfodol.  Cafodd y Pwyllgor ymatebion prydlon gan y Cabinet i bron pob llythyr pan ofynnwyd am ymateb.  Rhoddwyd gwybodaeth ychwanegol pan ofynnwyd amdani.

## Sefydlu a Hyfforddi Aelodau Craffu

Yn dilyn etholiadau lleol Mai 2017, cafodd Cynghorwyr newydd gynnig hyfforddiant i'w cynorthwyo yn eu rôl graffu fel a ganlyn:

- Stondin Graffu yn y Sesiwn Sefydlu Aelodau – Mai 2017
- Cyflwyniad i Graffu – Mehefin 2017
- Sgiliau Cadeirio – Mehefin 2017
- Sgiliau Holi – Gorffennaf 2017
- Hyfforddiant Cyllidebu – Chwefror 2018

Mae'r tudalennau canlynol yn tynnu sylw at brif weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2017–18 ac mae'n nodi'r sylwadau a'r argymhellion a wnaed.

[3] Gan gynnwys 2 gyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol i ystyried adroddiad y Cabinet a'r Galw i Mewn a ddilynodd o 'Ariannu'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth Fysus Newydd' a 2 gyfarfod arbennig ar 13 Chwefror 2018 a 27 Mawrth 2018 er mwyn ymgymryd â chraffu cyn penderfyniad ar gynigion sylweddol am Arena Dan Do Amlbwrpas a Gorsaf fysus Caerdydd.

## Ariannu Parciau

Cafwyd drwy'r Ymchwiliad hwn asesiad amserol o'r ffordd y gall Cyngor Caerdydd, sy'n wynebu arbedion o £91 miliwn dros y tair blynedd nesaf, barhau i ddarparu Parciau a Mannau Gwyrdd rhagorol. Ystyriodd aelodau ystod eang o ddulliau o godi incwm a lleihau costau y mae awdurdodau lleol ledled y DU yn eu defnyddio gan ddadansoddi modelau ariannu Parciau sy'n llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r byd.

I lywio'r Ymchwiliad, gwahoddodd Aelodau gyfraniadau gan ystod o randdeiliaid gan gynnwys Grwpiau Ffrindiau, defnyddwyr caeau chwaraeon a sefydliadau bywyd gwyllt partner. Clywodd Aelodau hefyd gan Gymdeithas Ddinesig Caerdydd, Ceidwaid Parciau Trefol, a Cheidwaid Parciau Cymunedol, uwch swyddogion a'r Cynghorydd Peter Bradbury, yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Barciau a Mannau Gwyrdd.

Dangosodd ein canfyddiadau nad oes llawer o ffyrdd ar ôl o leihau costau heb wanhau gallu'r Cyngor i gynnal safon presennol parciau Caerdydd; lleihawyd costau 24% dros y pedair blynedd diwethaf. O ran creu incwm, gwelon ni fod incwm eisoes yn cael ei greu gan Barciau a Mannau Gwyrdd a gellid creu mwy o incwm drwy amryw ffyrdd. Gellid defnyddio rhai o'r dulliau hyn heb effeithio ar ddefnydd presennol o'r parc ond byddai angen newidiadau i roi rhai o'r rhai eraill ar waith, er enghraifft, consesiynau mewn Parciau.

Drwy'r ymchwiliad, darganfuom fod pobl o bob un o'r grwpiau amrywiol sy'n defnyddio'n Parciau a'n Mannau Gwyrdd a oedd yn awyddus i gyfrannu atyn nhw a gweithio mewn partneriaeth i gynnal a gwella'n Parciau. Mae hyn yn amlwg yn y gwaith partneriaeth rhagorol ar hyn o bryd rhwng ein staff Parciau, Grwpiau Ffrindiau a sefydliadau bywyd gwyllt ac yn yr ymatebion a gawsom ni gan gynrychiolwyr defnyddwyr caeau sy'n awyddus i gael sgyrsiau am weithio gyda'n gilydd yn effeithiol.

Mae ein hargymhellion yn canolbwyntio ar egluro diben a ffocws Gwasanaethau Parciau er mwyn llywio graddfa, cwmpas a llwybrau derbyniol o ran creu incwm. Gwnaethom hefyd argymell peidio â gwneud toriadau pellach i'r Gwasanaeth Ceidwaid Parciau.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 17 Mai 2018. Disgwylir ymateb i'r argymhellion ym mis Medi 2018.

## Gorsaf Fysus Caerdydd a'r Orsaf Drenau Ganolog

Mae aelodau'n cydnabod pwysigrwydd rhoi cyfnewidfa drafnidiaeth o safon ar waith cyn gynted â phosibl i drigolion, cymudwyr, ymwelwyr, cyflogwyr a busnesau. Sicrhaom felly y neilltuwyd amser i ymgymryd â'n gwaith craffu ar gynigion wrth i'r rhain ddod ger ein bron drwy gydol 2017-18. Ar y cyfan, craffom ar y cynigion i ddarparu gorsaf fysus newydd i Gaerdydd bedair gwaith, ac roedd yr olaf o'r rhain yn cynnwys ystyried p'un a oedd y cynigion yn cyd-fynd â Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog. Cawsom y diweddaraf ar gynigion i ailddatblygu Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog ar wahân. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ymchwilio i'r canlynol gyda'r Cynghorydd Russell Goodway – yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, ac uwch swyddogion: mecanweithiau ariannu, trafodion tir, i ba raddau roedd y cynigion yn cyd-fynd â'r cynigion adfywio ar gyfer Sgwâr Canolog, yr Orsaf Drenau Ganolog a'r Cei Canolog; rheoli risgiau, a dichonolrwydd eu rhoi ar waith.

<u>Craffu Cyn Penderfyniad – Gorffennaf 2017</u>

Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol er mwyn craffu ar adroddiad i'r Cabinet ar yr orsaf fysus cyn penderfyniad. Yn y cyfarfod, ymchwiliodd Aelodau i faterion o ran ariannu'r orsaf fysus gan gynnwys: tybiaethau ariannol; mynd i'r afael â risgiau a'u lliniaru; amserlen darparu'r orsaf fysus; a'r argymhellion i'r Cabinet.

Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd y Cadeirydd er mwyn cyfleu cefnogaeth y Cyd-bwyllgor dros yr argymhellion i'r Cabinet o ran gweithredu dull sydd wedi'i arwain gan y farchnad o bennu defnydd mannau uwchben yr orsaf fysus yn y pen draw. Gofynnodd Aelodau am gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gyda chais i Lywodraeth Cymru am gymorth i fodloni gwaith technegol a gwelliannau i'r briffordd. Tynnodd Aelodau sylw hefyd at yr angen i sicrhau y gwneir gwiriadau diwydrwydd dyladwy i sicrhau modelu ariannol cadarn ac ystyriaeth o gyngor cyfreithiol.

Ymatebodd y Cynghorydd Goodway i lythyr y Cadeirydd gan nodi y byddai'r weinyddiaeth yn *'ceisio cyflawni'r budd gorau posibl am fuddsoddiad y Cyngor i sicrhau ein bod ni'n*

*gallu darparu'r cyfleuster gorau posibl gan hefyd roi ystyriaeth i'r amserlenni y mae angen i ni weithio yn unol â nhw'.* Nododd y Cynghorydd Goodway y byddai'n sicrhau bod swyddogion y Cyngor yn mabwysiadu dull cadarn o ran diwydrwydd dyladwy.

<u>Galw i Mewn ym Mis Medi 2017</u>

Ar ôl i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad, cafodd ei alw i mewn gan y Cynghorydd McEvoy ac ym mis Medi 2017, cynhaliodd y Pwyllgor gydgyfarfod gyda'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol er mwyn ystyried y meysydd a nodwyd yn y Galw i Mewn.

Mewn Cyfarfod Galw i Mewn, clywodd Aelodau gan y Cynghorydd McEvoy a chynrychiolydd Grŵp Defnyddwyr Bysus Caerdydd a'r Fro, Dr. Max Wallis, a'r Cynghorydd Russell Goodway ac uwch swyddogion. Wedi ystyried y dystiolaeth a rheolau gweithdrefn Galw i Mewn fel y'u nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor, pleidleisiodd yr Aelodau dros beidio â chyfeirio'r eitem at y Cyngor Llawn na'r Cabinet i'w hystyried.

<u>Craffu ar Bolisi Datblygu – mis Rhagfyr 2017</u>

Ym mis Rhagfyr 2017, ymgymerodd Aelodau â rhagor o waith craffu o wybodaeth gyfrinachol o ran y gwaith sy'n mynd rhagddo ar orsaf fysus newydd Caerdydd. Gyda thystion, ymchwiliodd Aelodau i ffactorau allweddol o ran ariannu a risgiau i'r Cyngor a cheision nhw eglurhad ar y camau nesaf a'r amserlenni. Gwnaeth aelodau hefyd ddadansoddi'r cynigion ar gyfer Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog ac ymchwilion nhw i'r cysylltiadau rhwng hyn a'r Orsaf Fysus a'r Sgwâr Canolog.

Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Cynghorydd Goodway i nodi bod Aelodau'n cydnabod y bydd y gwaith datblygu'n cryfhau economi Caerdydd drwy wella trafnidiaeth gyhoeddus, y cynnig lletyau swyddfeydd Gradd 'A' a chyfleusterau manwerthu. Yn y llythyr hefyd roedd argymhelliad y byddai'r lluniau/cynlluniau'n cael eu diweddaru er mwyn iddyn nhw ddarlunio'r *[cysylltiadau rhwng yr amryw foddau teithio – hybiau seiclo, mannau tacsi, a mannau gollwng a chasglu i dacsis]*', gan y bydd gan y cyhoedd ddiddordeb yn y rhain yn benodol. Argymhellodd Aelodau hefyd i'r Cyngor hwyluso deialog rhwng y Grŵp Ffocws Mynediad a'r grwpiau seiclo er mwyn sicrhau bod atebion yn cael eu hadnabod sy'n dderbyniol gan bawb.

Mewn cyfarfod pwyllgor maes o law (8 Mawrth 2018), ymchwiliodd Aelodau i'r argymhellion uchod gyda'r Cynghorydd Goodway ac uwch swyddogion a esboniodd y câi'r

lluniau a’r cynlluniau newydd eu paratoi i’w rhyddhau i’r cyhoedd ar ôl i waith symud o’r cam cysyniadol i’r cam cynllunio manwl.

Craffu Cyn Penderfyniad – Mawrth 2018

Yn olaf, ar 27 Mawrth 2018, cynhaliom gyfarfod arbennig i gynnal y gwaith craffu cyn penderfyniad ar adroddiad i’r Cabinet a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol am y pecyn ariannu a gynigiwyd ar gyfer gorsaf fysus Caerdydd rhwng Cyngor Caerdydd, Llywodraeth Cymru a Rightacres Property Ltd ac a oedd yn edrych ar ryngwyneb y Bartneriaeth Cyflawni Metro. Roedd aelodau’n gefnogol o’r argymhellion i’r Cabinet ac roedden nhw’n fodlon ar y ffaith y bydd swyddfeydd uwchben yr orsaf fysus ynghyd â lletyau rhent preifat. Gan fod gan y cyhoedd fuddiant yn yr orsaf fysus, argymhellodd Aelodau fod cynllun cyfathrebu’n cael ei roi ar waith i sicrhau bod y cyhoedd yn cael digon o wybodaeth am y gwaith sy’n mynd rhagddo, y camau amrywiol sy’n rhan o’r gwaith a’r amserlenni sy’n rhan ohono.

Gofynnodd Aelodau am ragor o wybodaeth am yr Orsaf Fysus gan gynnwys manylion am y model gweithredwr, hyb seiclo ochr y gogledd a’r cynllun llawr diweddaraf ar gyfer yr oraf fysus gan gynnwys llwybrau traffig ar gyfer cerddwyr, seiclwyr, bysus, coetsis, tacsis a cheir.

Mae aelodau wedi bod yn glir eu bod yn cydnabod pwysigrwydd ymgymryd â rhagor o waith i graffu ar gynigion ar gyfer Gorsaf Fysus Caerdydd a’r Bartneriaeth Cyflawni Metro Caerdydd ac maen nhw wedi gofyn am gael y diweddaraf am y gwaith datblygu.

## Craffu ar Hamdden a Chwaraeon

Mae Aelodau'n cydnabod rôl yr awdurdod lleol o ran galluogi trigolion i ddefnyddio cyfleusterau hamdden a chwaraeon gan hybu iechyd a lles trigolion. Bu newidiadau sylweddol i ddarpariaeth y gwasanaethau hyn dros y blynyddoedd diwethaf; mae Aelodau felly wedi blaenoriaethu gwaith i graffu ar y rhain.

<u>Partneriaeth Rheoli Hamdden gyda GLL</u>

Yn 2016, cymerodd GLL dros y cyfrifoldeb am reoli'r rhan fwyaf o ganolfannau hamdden y Cyngor. Deuddeg mis ymlaen, roedd Aelodau eisiau cael gwybod p'un a oedd gwaith i gyflawni Partneriaeth Rheoli Canolfannau Hamdden rhwng y Cyngor a GLL (Greenwich Leisure Limited) yn perfformio'r lefel y cytunwyd arno ac yn bodloni anghenion dinasyddion a chymunedau Caerdydd. Roedd Aelodau eisiau gwybod p'un a fu unrhyw newidiadau i ymrwymiadau a risgiau'r Cyngor; y rhaglen cyfalaf a gynigiwyd; a chyflawni gwasanaethau megis gwelliannau neu doriadau.

I lywio'r gwaith craffu, cyhoeddodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Howells, ddatganiad i'r wasg a oedd yn gofyn am farnau defnyddwyr gwasanaeth canolfannau hamdden drwy e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol ar eu profiadau. Rhoddodd fwy na 70 o ddefnyddwyr gwasanaeth adborth a thrwy hyn cafodd Aelodau ddarlun manwl o'r materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Cafodd Aelodau'r Pwyllgor adroddiad a grynhodd y prif themâu y gwnaeth ymatebwyr eu disgrifio.

Gwahoddodd Aelodau gynrychiolwyr o GLL a thîm rheoli cleientiaid y Cyngor ynghyd ag uwch swyddogion a'r Cynghorydd Peter Bradbury (yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden) i gyfarfod y pwyllgor. Rhoddodd gynrychiolwyr o GLL gyflwyniad gan roi data ar ddangosyddion perfformiad allweddol yn y contract. Defnyddiodd Aelodau'r wybodaeth a gafwyd yn yr adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth i ymchwilio i faterion a godon nhw gyda GLL a thystion mewnol.

Yn y cyfarfod, roedd modd i GLL esbonio rhywfaint o'r materion a godwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth, er enghraifft, bod rhai personél yn gallu nofio am ddim mewn unrhyw ganolfan hamdden GLL yn unol â Chyfamod y Lluoedd Arfog. Roedd GLL hefyd

yn gallu rhoi eu persbectif o ran rhai o’r materion a nodwyd, er enghraifft, eu nod o sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd drwy ddatblygu costau consesiynol ar sail incwm yr aelwyd. Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd y Cadeirydd i’r Cynghorydd Bradbury gan geisio cymorth i GLL i gael ymateb ar ymholiadau penodol a godwyd gan y sawl a roddodd adborth. Cafodd yr adborth a anfonwyd yn ddienw i’r Cynghorydd Bradbury a rannodd hyn gyda GLL ac a ofynnodd am i ymateb gael ei baratoi ar bob agwedd ar y materion a nododd ymatebwyr. Mae hyn wedi’i gael gan GLL.

Gofynnwyd yn y llythyr gan y Cadeirydd am ragor o wybodaeth am arolwg Boddhad Cwsmeriaid GLL, proffil o’i ddefnyddwyr gwasanaeth a nifer yr ymweliadau; rhoddwyd hyn yn rhan o ymateb y Cynghorydd Bradbury i lythyr y Cadeirydd.
Penderfynodd Aelodau i rannu lwyddiant GLL a oedd wedi’i adrodd o ran lleihau absenoldebau salwch gyda Phwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad. Cynlluniwyd i’r pwyllgor graffu at y ffyrdd y gallai Cyngor Caerdydd leihau lefelau salwch. Cytunodd GLL i gymryd rhan mewn dadansoddiad manwl o’u data absenoldeb salwch a’r dulliau a roddwyd ar waith er mwyn llywio’r craffu hwn.

Yn olaf, croesawodd Aelodau gynnig y Cynghorydd Bradbury i ddod yn ôl i’r Pwyllgor yn rheolaidd i drafod cyflawniad gwasanaethau yn y maes pwysig hwn. Yn rhan o hyn, nododd Aelodau y wybodaeth rheoli contract yr hoffen nhw ei chael mewn cyfarfodydd craffu yn y dyfodol er mwyn eu galluogi i ddeall defnydd o’r Canolfannau Hamdden.

Menter Datblygu Chwaraeon ar y Cyd

Yn 2014, llofnododd y Cyngor gydgytundeb menter gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd i gyflawni gwasanaethau chwaraeon yn y ddinas. Trosglwyddodd tîm Chwaraeon Caerdydd i’r Brifysgol a rhoddwyd trefniadau llywodraethu newydd ar waith gan gynnwys ailstrwythuro’r tîm i adlewyrchu’r chwe ardal rheoli cymdogaeth cyfagos. Nodwyd yn y cydgytundeb menter amcanion â blaenoriaeth a phrif ystyriaethau gyda’r nod o roi hwb i gyfranogiad mewn chwaraeon mewn grwpiau demograffeg a oedd yn isel o ran cyfranogiad yn hanesyddol. Datblygwyd Cynllun Chwaraeon Lleol ar gyfer 2014-2017 er mwyn manylu ar y camau i’w rhoi ar waith i gyflawni hynny.

Er mwyn llywio’r gwaith craffu hwn, gofynnod y Cadeirydd am ddata tueddiadau o ran cyfranogiad mewn chwaraeon yn ôl rhyw ac ethnigrwydd, i ddangos cynnydd ers 2014.

Bu'r Cynghorydd Bradbury, Rheolwr Datblygu Chwaraeon y Cyngor, a staff Chwaraeon Caerdydd yn y pwyllgor i roi'r wybodaeth hon ac ateb cwestiynau gan Aelodau. Gwnaeth Chwaraeon Caerdydd hefyd gyflwyno fideos er mwyn dangos y gwaith sydd wedi mynd rhagddo a'i effaith ar gyfranogwyr. Clywodd Aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ail Gynllun Chwaraeon Lleol ar gyfer 2018 ymlaen.

Yn dilyn y gwaith craffu hwn, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Cynghorydd Bradbury er mwyn mynegi bodlonrwydd ar drefniadau llywodraethu a gwaith y partneriaeth o ddydd i ddydd. Gofynnodd hefyd am ddata hanesyddol cyn i'r Cyd-fenter fynd ar waith er mwyn ei gwneud yn bosibl ei gymharu â data hanesyddol. Yn ei ymateb, rhoddodd y Cynghorydd Bradbury'r wybodaeth hon.

<u>Cynllun Chwaraeon Lleol 2018-19</u>

Yn dilyn eu gwaith craffu ar gytundeb y Cyd-fenter, neilltuodd Aelodau amser i graffu ar y Cynllun Chwaraeon Lleol 2018-19 a ddatblygwyd gan Gyngor Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a phartneriaid ledled Caerdydd. Gwahoddodd Aelodau'r Cynghorydd Bradbury – yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, uwch swyddogion a staff o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd i drafod y Cynllun a materion cysylltiedig mewn un o gyfarfodydd y pwyllgor.

Roedd Aelodau'n hapus gyda'r Cynllun a sylwon nhw ar ei gwmpas, ei fanylder a'i bwyslais ar fynd i'r afael â'r prif flaenoriaethau a'r ystyriaethau allweddol a nodwyd yng Nghytundeb y Cyd-fenter gan ddefnyddio symiau bychain o arian yn y modd gorau posibl. Croesawodd Aelodau hefyd y cyfraniad a amlinellwyd yn y Cynllun o ran cymorth mewn Digwyddiadau Mawr yng Nghaerdydd, er enghraifft gwirfoddolwyr yn helpu yng Ngham Caerdydd Ras Fôr Volvo.

Trafododd Aelodau'r angen i wella cyfranogiad yn y gymuned ac awgrymon nhw y gallai cyrff llywodraethu a Chwaraeon Cymru gynorthwyo drwy gael trafodaethau gyda chymunedau. Yn rhan o hyn, nododd Aelodau ei bod yn bwysig sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion yn parhau i fod yn hygyrch ac yn fforddiadwy i'w cymunedau lleol. Roedd Aelodau'n hapus i glywed bod Chwaraeon Caerdydd yn cyfeirio pobl at glybiau lleol ac yn cynorthwyo'r clybiau hynny i ddatblygu dros y tymor hir gan sicrhau dyfodol cynaliadwy.

Yn olaf, nododd Aelodau y bydd Chwaraeon Caerdydd yn gwneud adroddiadau chwarterol i Gyngor Caerdydd ar waith sydd wedi mynd rhagddo i weithredu’r Cynllun Chwaraeon Lleol gyda mesurau meintiol ac ansoddol i ddangos ei effaith.

## Craffu ar Lyfrgelloedd a Hybiau

Mae aelodau’n cydnabod hyd a lled y gwasanaethau y mae llyfrgelloedd a hybiau’n eu cynnig yn eu cymunedau gan ymgysylltu â’r sawl sydd mewn angen a chan wneud eu rhan o wella bywydau pobl. Felly, blaenoriaethodd Aelodau’r gwaith o graffu ar y gwasanaethau hyn er mwyn monitro perfformiad ac er mwyn asesu newidiadau arfaethedig i bolisi / ddarparu gwasanaethau. Clywodd Aelodau gan y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau sy’n gyfrifol am Lyfrgelloedd a Hybiau, ac uwch swyddogion perthnasol.

Ar y cyfan, roedd yn bleser gan Aelodau nodi na fydd gwasanaethau llyfrgelloedd symudol na gwasanaethau llyfrgelloedd yn cael eu lleihau.

Y Pumed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru
Bob blwyddyn, mae Cyngor Caerdydd yn cyflwyno datganiad i Lywodraeth Cymru sy’n rhoi manylion am y ffordd y mae wedi darparu’r hawliau craidd yn y Fframwaith ac sy’n rhoi gwybodaeth mewn perthynas â’r dangosyddion ansawdd a’r mesurau effaith. Mae Llywodraeth Cymru’n ymgymryd ag asesiad o’r datganiad ac mae’n gwneud adroddiad arno er mwyn crynhoi perfformiad.

Roedd Aelodau’n hapus i nodi gwelliannau mewn perfformiad a dangosodd yr adroddiad ar gyfer 2016/17 fod Caerdydd wedi bodloni pob un o’r 18 o hawliau craidd yn llawn. O’r saith dangosydd ansawdd sydd â thargedau, cyflawnodd bedwar yn llawn a thri’n rhannol.

Trafododd Aelodau’r prif destun pryder y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad, sef lefelau staffio isel. Daeth Aelodau i’r casgliad nad yw ffigurau y mae Llywodraeth Cymru’n eu defnyddio ar hyn o bryd yn cynnwys yr holl staff sydd ar gael i roi cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn llyfrgelloedd. Yn eu barn nhw, dylid cynnwys yr holl staff sy’n gweithio mewn

llyfrgelloedd yn y dangosydd; cynigiodd y Pwyllgor gymorth o ran hwn mewn sylwadau i Lywodraeth Cymru.

Roedd Aelodau o’r farn y gallai cynghorwyr fod yn fwy rhagweithiol o ran hyrwyddo gwasanaethau llyfrgelloedd, er enghraifft, drwy sicrhau bod Cynghorau Cymuned yn cael manylion am wasanaethau a digwyddiadau mewn llyfrgelloedd lleol. Roedd Aelodau’n hapus bod swyddogion wedi ymateb yn gadarnhaol i’r awgrym hwn.

Cynigion Cyffredinol y Prif Lyfrgellydd

Mae Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr wedi gweithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys y Cyngor Celfyddydau a’r Asiantaeth Ddarllen i nodi chwe maes gwasanaeth allweddol sydd yn nhyb defnyddwyr gwasanaeth yn rhan annatod o lyfrgelloedd cyhoeddus ac i ddatblygu ‘cynnig cyffredinol’ ar gyfer pob un o’r rhain gan osod gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer dyfodol llyfrgelloedd cyhoeddus. Dyma’r meysydd gwasanaeth: darllen; gwybodaeth; digidol; iechyd; dysgu; a diwylliant.

Clywodd Aelodau fod llyfrgelloedd yn sicrhau bod cynigion cyffredinol yn cael eu darparu yn llyfrgelloedd Caerdydd. Yn rhan o’r drafodaeth am y cynnig iechyd cyffredinol, cododd Aelodau bwysigrwydd sicrhau bod pob un o aelodau staff yr hybiau a’r llyfrgelloedd yn gwneud hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia gan gynnwys esbonio gwahanol fathau o ddementia a’r ymddygiad y maen nhw’n ei achosi; roedd Aelodau’n hapus bod swyddogion yn cydnabod pwysigrwydd hyn.

Her Ddarllen Yr Haf

Clywodd Aelodau y cafodd 396 o ddigwyddiadau hyrwyddo eu cynnal gan staff llyfrgelloedd a hybiau ac yr aethon nhw i 96% o ysgolion yng Nghaerdydd i hyrwyddo cyfranogiad yn Her Ddarllen yr Haf 2017 ac annog plant i ymaelodi â llyfrgelloedd. Her Ddarllen Haf 2017 oedd yr un fwyaf llwyddiannus hyd yn hyn. Cymerodd 7,511 o blant ran ynddo, cwblhaodd 5,085 o blant yr her ac ymaelododd 626 o blant â llyfrgell yn ystod yr her.

Roedd sawl Aelod o'r farn y gallai cynghorwyr ward chwarae rôl fwy rhagweithiol o ran annog ysgolion i gymryd rhan yn Her Ddarllen yr Haf. Roedd Aelodau'n hapus bod swyddogion wedi ymateb yn gadarnhaol i'r awgrym hwn.

Gwasanaethau Cyflogaeth yng Nghaerdydd

Ymchwiliodd Aelodau i gynigion ar gyfer gwasanaethau cyflogaeth ar ôl i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gael ei dirwyn i ben, a oedd yn ariannu amryw hyfforddiant cysylltiedig â chyflogaeth a gwasanaethau cymorth ar gyfer y rheiny a oedd yn byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Clywodd Aelodau fod y cynigion newydd yn canolbwyntio ar wella hygyrchedd gwasanaethau cyflogaeth ledled y ddinas. I hwyluso hyn, caiff gwasanaethau eu darparu drwy Borth gan gynnwys mannau mynediad wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein. Byddai'r rhai wyneb yn wyneb yn cael eu darparu mewn hybiau.

Yn y drafodaeth graffu gyntaf o'r pwnc hwn, tynnodd Aelodau sylw at yr angen i sicrhau bod y dull 'pyrth' arfaethedig o ddarparu gwasanaethau cyflogaeth yn cael ei farchnata i roi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth posibl ei fod yn annibynnol ac yn ddefnyddiol. Cododd Aelodau hefyd yr angen i sicrhau bod systemau ar waith i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth posibl sy'n cael trafferth defnyddio gwasanaethau cyflogaeth.

Yn ystod yr ail drafodaeth o'r pwnc hwn, roedd Aelodau'n hapus i weld, yn dilyn codi eu pryderon am annog mynediad at wasanaethau cyflogaeth, bod yr adroddiad gerbron y Cabinet yn cynnwys adran ar y dull rhagweithiol a fyddai'n cael ei roi ar waith i roi cymorth i unigolion anodd eu cyrraedd.

Adeiladu Cymunedau Gwydn – Datblygu Hybiau Cymuned a Lles

Mae dull newydd Llywodraeth Cymru o drechu tlodi'n cynnwys adeiladu cymunedau cryf a gwydn ac mae cyllid etifeddol ar gael yn dilyn dirwyn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben.

Yn rhan o hyn, cynhaliodd Aelodau waith craffu ar gynigion i greu hybiau cymuned a lles yng ngogledd a gorllewin Caerdydd gan ddod â llyfrgelloedd cangen cymunedol dan strwythur rheoli'r hybiau. Byddai rolau staff yn cael eu datblygu i gynnig ystod ehangach o wasanaethau'n seiliedig ar anghenion lleol. Ystyriodd Aelodau hefyd gynigion i wneud Hyb y Llyfrgell Ganolog yn rhan o strwythur reoli'r Gwasanaethau Cynghori gyda'r nod o wella

a chydgysylltu gwasanaethau. Yn ogystal â hyn, clywodd Aelodau gynigion i ddatblygu Strategaeth Llyfrgell newydd er mwyn sicrhau bod Caerdydd yn parhau i gynnig darpariaeth llyfrgelloedd craidd gref a'i bod yn parhau i berfformio'n dda gan ddatblygu cynnig llyfrgelloedd gwell. Yn rhan o hyn, clywodd Aelodau y cynigir darparu gwasanaethau ledled y ddinas, o fewn hybiau, ysgolion ac adeiladau cymunedol eraill.

Nododd Aelodau eu bod yn dymuno craffu ymhellach wrth i'r cynigion gael eu datblygu, yn enwedig yng nghyswllt arian cyfalaf a newidiadau sylweddol i adeiladau presennol. Maen nhw'n argymell bod Pwyllgor yn y dyfodol yn craffu ar berfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cymru. Argymhellodd Aelodau hefyd fod adolygiadau ardal arfaethedig yn rhoi ystyriaeth i gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau bod ffiniau ardal yn adlewyrchu'r rhain, a bod pobl yn gallu cyrraedd gwasanaethau priodol ar gludiant cyhoeddus.

## Craffu ar Adfywio

Un o rolau allweddol y Pwyllgor hwn yw craffu ar fentrau adfywio, boed yn fawr fel Sgwâr Canolog, neu'n fach fel canolfannau siopa lleol. Eleni, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar nifer o gynigion adfywio proffil uchel fel y'u nodir isod.

<u>Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cynllun Busnes y Cytundeb Gweithio ar y Cyd</u>

Craffodd Aelodau ar Gynllun Busnes y Cytundeb Gweithio ar y Cyd cyn iddo fynd gerbron y Cyngor Llawn. Mae'r Cynllun yn rhoi'r cyd-destun i benderfyniadau ar y ffordd y caiff £495 miliwn o arian y Fargen Ddinesig (y Gronfa Fuddsoddi Ehangach) ei defnyddio. Mae'n cynnwys manylion ar sut y bydd buddsoddiadau a gynigir yn cynorthwyo i fodloni amcanion Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o ran niferoedd y swyddi a grëir, buddsoddiad y sector preifat, cymorth gydag amcanion strategol, cyflawni budd economaidd i'r rhanbarth a gwerth am arian. Mae hefyd yn nodi, o ran y Metro Canolog, gwaith moderneiddio Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog, *'yn rhan o'r cynnig presennol*

*byddai gofyn am £40 miliwn o arian y Fargen Ddinesig yn amodol ar gymeradwyo'r Cynllun Busnes Llawn ac ymrwymiad i arian cyfatebol* gan bartneriaid'[4].

Clywodd Aelodau gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas, a chan y Cynghorydd Goodway, y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Datblygu Economaidd. Yn dilyn y cyfarfod, cadarnhaodd Aelodau'r Pwyllgor eu cefnogaeth i ddull y Fargen Ddinesig a chroesawon nhw'r dull a amlinellwyd yn y Cynllun Busnes Drafft gan gredu y byddai'n creu budd sylweddol i'r Brifddinas-Ranbarth. Ymrwymodd Aelodau i ymgymryd â rhagor o waith craffu o'r cynigion Metro ac roedden nhw'n falch i glywed gan y Cynghorydd Thomas y byddai mewnbwn yn gynnar yn y broses gan yr Aelodau craffu o fudd i'r Metro Canolog. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor hefyd y byddai gwaith cyflwyno Sgiliau a Chyflogaeth, Arloesi ac Adfywio a Seilwaith yn rhan o raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2018/19.

Yn olaf, roedd Aelodau'n falch o glywed y manteisir ar berthnasoedd a grëwyd drwy broses y Fargen Ddinesig i drafod gwaith pellach ar y cyd a gwasanaethau a rennir.

<u>Arena Dan Do Amlbwrpas</u>

Mae'r Weinyddiaeth wedi ymrwymo i gyflawni Arena Dan Do Amlbwrpas newydd yn y lleoliad gorau posibl i sicrhau y gall ddenu'r digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol gorau. Ym mis Hydref, ystyriodd Aelodau gynigion amlinellol ac yn dilyn hynny mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu cefnogaeth gan gydnabod y budd i'r brifddinas-ranbarth o gael mwy o ymwelwyr a seilwaith gwell. Pwysleisiodd Aelodau'r angen i swyddogion ystyried ystod o opsiynau ariannu ac i sicrhau bod yr achos busnes i'r arena dan do amlbwrpas yn manylu'n glir ar yr effaith debygol y bydd yr arena'n ei chael ar leoliadau eraill yn y brifddinas-ranbarth.

Ym mis Chwefror, cynhaliodd Aelodau gyfarfod arbennig er mwyn cael gwybodaeth gyfrinachol canlyniadau arfarniad safleoedd posibl, rhesymeg ffafrio lleoliad ar gyfer yr arena, y risgiau i'r Cyngor ac amserlen darparu'r arena.

Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Howells, at y Cynghorydd Goodway i nodi, ar sail y dystiolaeth a gafwyd, mae Aelodau'n cefnogi'r argymhelliad i'r

---

[4] Tud. 26 o Gynllun Busnes y Cytundeb Gweithio ar y Cyd.

Cabinet o ran y lleoliad a ffefrir, yn amodol ar ystyriaeth yn y dyfodol o wybodaeth ychwanegol o ran goblygiadau ariannol a'r achos busnes.

Pwysleisiodd Aelodau'r angen am drafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a fforddiadwy i annog yr ymwelwyr ychwanegol â Chaerdydd i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy ac i osgoi ychwanegu at dagfeydd yng Nghaerdydd.

Mae Aelodau wedi bod yn glir yr hoffen nhw ymgymryd â rhagor o graffu cyn penderfyniad o strategaeth darparu'r arena dan do gan gynnwys y goblygiadau ariannol manwl i'r Cyngor ac unrhyw dir a gafaelir nad yw ym meddiant y Cyngor ar hyn o bryd,

Y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol

Mae gan y weinyddiaeth ymrwymiad i '*Osod gweledigaeth newydd ar gyfer Bae Caerdydd fel lleoliad hamdden drwy sicrhau atyniad ymwelwyr newydd gyda'r posibilrwydd o greu cyfleuster "traeth" parhaol ac adfywio'r strategaeth ar gyfer Pentref Chwaraeon Rhyngwladol.'* Ym mis Mawrth, craffodd Aelodau'r Pwyllgor ar bapurau cyfrinachol a amlinellodd gynigon ar gyfer y camau nesaf o ran y Pentref. Ymchwiliodd Aelodau i ffactorau allweddol sy'n llywio cynlluniau yn y dyfodol, risgiau i'r Cyngor, cydnawsedd â chynlluniau adfywio Bae Caerdydd ehangach a'r amserlen cyflawni.

Ar ôl ystyried y wybodaeth a rannwyd yn y sesiwn gyfrinachol, roedd Aelodau'n cefnogi'r argymhelliad i'r Cabinet a thynnon nhw sylw at y ffaith yr oedden nhw'n dymuno ymgymryd â rhagor o waith craffu ar y cynigion i adfywio'r Pentref Chwaraeon wrth iddyn nhw gael eu rhyddhau gan gynnwys manylion am welliannau arfaethedig i lwybrau cerdded a seiclo yn y Bae i wella profiadau ymwelwyr a thrigolion.

Y Rhaglen Fenter Adfywio Targedig

Mae'r Fenter Adfywio Targedig yn rhaglen gwerth £100 miliwn gan Lywodraeth Cymru i *'greu swyddi, gwella sgiliau a chyflogadwyedd, a chreu'r amgylchedd i fusnesau dyfu a ffynnu."* [5] Gall awdurdodau lleol gyflwyno ceisiadau am gyllid a rhaid rhoi tystiolaeth o waith ymgynghori gyda chymunedau yr effeithir arnyn nhw a chymorth gan eu rhanbarth.

---

[5] Dyfyniad o **http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/regeneration/targeted-regeneration-investment/?lang=en**

lawrlwythwyd 4 Ebrill 2018

Craffodd aelodau ar y cynigion i Gaerdydd o ran pennu pa geisiadau i'w cyflwyno a chynigion i roi'r camau llywodraethu perthnasol ar waith i alluogi'r rhanbarth i gefnogi ceisiadau am arian.  Ymchwiliodd Aelodau i'r dull arfaethedig o ymgynghori â'r gymuned a'r rhyngwyneb â gwaith partneriaeth arall gan gynnwys projectau datblygu economaidd. Holodd Aelodau hefyd am y risgiau i'r Cyngor a pha gamau a oedd yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r rhain ac i'w lliniaru.

Ar ôl y cyfarfod, ysgrifennodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Howells, at y Cynghorydd Lynda Thorne a'r Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelodau Cabinet cyfrifol, gan fanylu ar farnau Aelodau o'r Pwyllgor.  Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nod o ehangu gwaith rhanbarthol, felly mynegodd Aelodau eu bod nhw o'r farn y byddai'n ddarbodus ymchwilio i ddichonolrwydd rhoi trefniadau llywodraethu ar waith i adlewyrchu hyn; byddai hyn yn well na mecanweithiau llywodraethu mwy achlysurol.

Pwysleisiodd Aelodau'r angen i reoli disgwyliadau yn rhan o'r broses ymgynghori cymunedol er mwyn osgoi creu ymdeimlad o ddieithrwch mewn cymunedau os nad yw ceisiadau'n llwyddiannus.  Cododd Aelodau'r angen i gynnwys cynghorwyr ward o'r cychwyn cyntaf i helpu i ysgogi syniadau ac roedden nhw'n falch o glywed cydnabyddiaeth yn hyn o beth o du swyddogion.

Trafododd Aelodau hefyd yr angen am dwf cynhwysol i osgoi diffygion y cynlluniau adfywio blaenorol nad ydyn nhw bob amser wedi sicrhau bod cymunedau lleol yn elwa ar y cynlluniau.

## Cynllun Corfforaethol a Chynigion i'r Gyllideb 2018-19

Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2018, ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Corfforaethol Drafft y Cyngor a'i gynigion cyllidebol drafft ar gyfer 2018-19. Gwnaeth Aelodau:

- Leisio pryder am y dadansoddiad daearyddol a demograffig o'r gwaith ymgynghori a gynhaliwyd cyn y broses gyllideb, ac awgrymon nhw i'r Cyngor weithio'n agos gyda Phrifysgol Caerdydd i wella'r dull methodolegol ac i ganolbwyntio ar safleoedd y mae pobl ifanc yn ymweld â nhw;
- Ofyn am eglurhad o wasanaethau, pwysau a setliadau ariannol a oedd yn achosi'r diffyg cynyddol yn y gyllideb;

- Dynnu sylw at eu pryderon y caiff y cynigion arbedion eu lleihau o 10% (yng nghynigion 2017/18) i 5% (yng nghynigion 2018/19) yn y cynigion arbedion gyda statws cynllunio manwl;
- Ofyn am eglurhad o'r ffordd y gellid gweithredu prosesau monitro ac adolygu priodol ar gyfer cynlluniau datblygu economaidd a mesur y budd i drigolion lleol;
- Holi beth oedd y raddfa gyflwyno ar gyfer graff o ran Nifer yr Ymwelwyr y Flwyddyn;
- Dynnu sylw at eu dymuniad i graffu ar y cynllun busnes asedau hanesyddol a gynigir;
- Ofyn am ystyriaeth i roi rhagor o gyllid refeniw i gefnogi swydd ychwanegol yn y gwasanaeth Ceidwaid y Parciau;
- Ofyn am ddadansoddiad manwl o'r cyllid cyfalaf ar gyfer Canolfannau Hamdden;
- Ofyn am adborth ar atebolrwydd y Cyngor o ran rhoi cymorth i fusnesau lleol ac i drigolion lleol gyda'u rhagolygon cyflogadwyedd yn sgil effaith datblygiadau mawr;
- Ofyn i'r Cabinet ystyried ystod o opsiynau i hybu hygyrchedd cyrsiau dysgu i oedolion nad yw'r Cyngor mwyach yn rhoi arian atyn nhw; a
- Gofyn am sicrwydd nad yw'r gostyngiad yng nghronfa lyfrau Llyfrgelloedd Caerdydd yn golygu nad yw Caerdydd yn bodloni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

Ymatebodd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i'r pwyntiau uchod, rhoddodd gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani, ac eglurodd sefyllfa bresennol y weinyddiaeth ar y materion a godwyd.  Ni chefnogwyd y cais am arian ychwanegol i gyflogi Ceidwad Parciau.

# Monitro Perfformiad

## Adroddiadau Perfformiad Chwarterol

Mae Pwyllgorau Craffu'n gyfrifol am graffu ar berfformiad, hwyluso herio a thrafodaeth gyhoeddus, a thrwy hynny helpu i hybu gwelliannau mewn darpariaeth gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor wedi adolygu perfformiad y Cyfarwyddiaethau canlynol bob chwarter:

- Datblygu Economaidd – *pob maes ac eithrio Gwasanaethau Masnachol, sy'n cwympo o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol;*
- Gweithrediadau'r Ddinas – *Parciau, Chwaraeon, Hamdden, a gwasanaeth Awdurdod Harbwr Caerdydd[6];*
- Pobl a Chymunedau[7] - Hybiau, Llyfrgelloedd, I Mewn i Waith a Dysgu Cymunedol i Oedolion.

Wrth bennu rhaglen waith 2017/18 y Pwyllgor, penderfynodd Aelodau dreialu dull newydd o graffu ar berfformiad. Cytunwyd y byddai Aelodau'n cael yr adrannau perthnasol o adroddiadau perfformiad Chwarter 1, Chwarter 2 a Chwarter 3 i bob Cyfarwyddiaeth dryw e-bost ac y byddai Swyddog Craffu'r Pwyllgor yn rhoi crynodeb o'r pwyntiau allweddol. Roedd wedyn gan Aelodau'r cyfle i adolygu'r adroddiadau ac i e-bostio eu sylwadau i Aelodau eraill y Pwyllgor. Lle roedd gan Aelodau bryderon am berfformiad, gallen nhw ofyn am i'r Aelod Cabinet a'r Swyddog perthnasol gael eu gwahodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i drafod materion perfformiad a'r camau lliniaru sy'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r heriau. Byddai adroddiad Chwarter 4 yn mynd gerbron Cyfarfod y Pwyllgor gan gynnwys tystion perthnasol er mwyn galluogi Aelodau i adolygu perfformiad y flwyddyn gyfan.

Wrth bennu rhaglen waith 2018/19, bydd y Pwyllgor yn adolygu'r dulliau gwaith o ran Perfformiad Chwarterol, cadernid ac ansawdd y craffu a aeth rhagddo, ac yn cytuno ar ddull yn y dyfodol.

---

[6] Symudodd y gwasanaeth hwn i'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd ar ddechrau Chwarter 4.
[7] Yn Ch1-Ch3, roedd y gwasanaethau hyn yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid

## RHAGLEN WAITH 2018/19

Caiff aelodau'r Pwyllgor eu gwahodd i ystyried eitemau y gellid eu cynnwys yn rhaglen waith 2018/19 y Pwyllgor. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i nodi'r materion y bydd y Pwyllgor yn eu hystyried.  Caiff rhaglen waith ddrafft ei datblygu'n dilyn hynny a'i chyflwyno gerbron y Pwyllgor ar gyfer ei chymeradwyo a'i gweithredu.  Byddai'r Pwyllgor yn croesawu awgrymiadau o ran eitemau craffu gan Aelodau eraill.

## GWAITH CRAFFU YN Y DYFODOL

Yn ystod ei gyfnod gweithredu eleni, mae'r Pwyllgor wedi argymell bod yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn Rhaglen Waith 2018/19 y Pwyllgor:

- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd -<br>Y Bartneriaeth Darparu Metro, Sgiliau a Chyflogaeth, Arloesi, Adfywio a Seilwaith.
- Gorsaf Fysus Caerdydd.
- Metro Canolog – Gorsaf Caerdydd Canolog.
- Arena Dan Do Amlbwrpas.
- Y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol.
- Adfywio Bae Caerdydd.
- Awdurdod Harbwr Caerdydd.
- Cynllun Busnes Asedau Hanesyddol.
- Newidiadau i Lyfrgelloedd – Canolog, Canghennau, hybiau a strategaeth newydd.
- Safonau Llyfrgelloedd Cymru.
- Adroddiadau Perfformiad.
- Adroddiadau Arbedion.
- Archwilio, Ymchwilio ac Adroddiadau Rheoliadol Perthnasol.
- Ymatebion Cabinet i Ymholiadau blaenorol a gweithredu argymhellion y cytunwyd arnyn nhw mewn ymchwiliadau blaenorol.

Gwasanaethau Craffu, Cyngor Caerdydd,
Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa’r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Ffôn: 029 2087 2953 E-bost: scrutinyviewpoints@caerdydd.gov.uk

© 2018 Cyngor Caerdydd